Cyfres Llanbedr | Rhagfyr, 1927 | Cyf. 27. Rhif 12.

Profwch bob peth: Rhyddid: Gwirionedd: Cariad. Deliwch yr hyn sydd dda

Yr Ymofynnydd.

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Y Golygydd — Y Parch T. Oswald Williams

Cynnwys.

Nodiadau'r Golygydd.
Hen Arferion Nadolig.
Davis Castellhywel.
Crogi.
Priodas.
"Hwn yw fy nghorff—."
Adolygiadau.
Marwgofion.
Nodion yr Eglwysi.

Y Gwirionedd a'ch rhyddha chwi.

Argraffwyd gan J. D. Lewis Gwasg Gomer Llandysul.

YR YMOFYNNYDD.

Pris 3c. y mis ; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—Y Parch. T. Oswald Williams, M.A., Lampeter.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. Lewis, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

Mynnwch gael yr Argraffiad Newydd o

"TELYN DEWI,"

SEF GWAITH PRYDYDDAWL

Y Parch. DAVID DAVIS, o Gastell Hywel.

CYFROL DLWS.—Pris 3s. 6c. ; drwy'r Post, 3s. 10c.

Anfoner i SWYDDFA'R 'YMOFYNNYDD,' LLANDYSSUL.

CHANNING HOUSE SCHOOL

HIGHGATE, LONDON, N.6.

Public School for Girls.

FEES 130 GUINEAS.

Foundation Scholarship Examination in March.

For Particulars apply to THE HEAD MISTRESS.

T. E. Jones, & Co.

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers and Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, etc.

Yr Ymofynnydd.

- - Cylchgrawn Misol - -
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

CYFRES LLANBEDR. RHAGFYR, 1927. CYF. XXVII. RHIF 12.

Nodiadau'r Golygydd.

YR ym ar ddiwedd blwyddyn arall ac ni fedraf ond dymuno o galon i'm darllenwyr "NADOLIG LLAWEN," ie, Nadolig gwyn a dedwydd a sicr fod cydymdeimlad pawb ohonom gyda rhywrai fel finnau sy'n canu megis yn y lleddf am y flwyddyn—

" O na buasai hithau'n marw
Fel gwnaeth ei chwiorydd lu,
Cyn rhoi achos im' ei galw
Ar yr enw '*Blwyddyn Ddu*'."

* * *

Trem yn ol.

Y mae'n rhy anodd peidio edrych yn ol dros y ddwy flynedd a chofio am yr help a gefais o *bell* ac yr wyf am ddiolch i'r llenorion hynny a'm galluogodd i ddwyn allan ddau rifyn Coffa dwbl i "Iolo Morganwg" a "Davis, Castellhywel" ac am y geiriau caredig a rowd i'r ymdrech. Y mae'n rhy anodd gwybod a ydyw'r cylchgrawn ar y llinellau iawn. Hoffwn eleni eto gael "*symposium*" er cadw fy nhraed rhag llithro. Gobeithiaf gael rhyw *hanner cant* o gardiau yn llawn awgrymiadau ar gyfer y flwyddyn newydd, *ac yr wyf yma yn gwahodd pob un i anfon i mi gerdyn o hyn i'r Nadolig gydag awgrymiadau.* Cewch wybod yn rhifyn Ionor pwy wrandawodd ar fy nghais.

Ond i chwi ddarllain fy Nodiadau yn rhifyn Ionor 1926 cewch imi addo rhoddi un arbenigrwydd ar dymor fy ngolygyddiaeth—addewais y buasai'n dymor byr, a chredaf fod brodyr caredig y Wesleyaid wedi'i nodi—fod tair blynedd yn ddigon, a gofynnaf i chwi felly fod yn amyneddgar am un flwyddyn eto gan obeithio y rhydd pob un ohonoch fwy o help i mi nag yr ydych wedi estyn

yn ystod y ddwy flynedd ddiweddaf. Nid oes raid i chwi ond bwrw trem tros y tudalennau er gweld. "Llunier i gall hanner gair."

* * *

"Pa beth a wnaf—?"

Y mae'r byd crefyddol yn ein gwlad ni yn ferw drwyddo. Y mae'r hen mewn adfeilion ac y mae perigl bob amser wrth ddinistrio. Nid y gwael yn unig a ddinistrir, ac y mae perigl i lawer peth gwerth cadw gafael arno gael mynd gyda'r llif. Pwy ddydd darllenwn erthygl yn yr "Outline" y cylchgrawn newydd a byw gan un a eilw ei hun "An Enquiring Layman." Rhyw bererindod ysbrydol y sydd ganddo. Y mae'n nodi'r ffordd bob cam. Daw dan ddylanwad Mathew Arnold, Leslie Stephen, John Morley ac eraill. Try wedyn at wyddor a gofyn i dri diwinydd o'r radd flaenaf am esbonio'r *drift*. Y mae'r Esgob Barnes yn ateb yn ei bregethau ac yn ysgubo'r creu a'r cwymp i ebargofiant gan ddwyn dyn i dir rheswm. Try oddiwrth Barnes at Gore ond heb gael ymwared. Cyngor Gore yw mai ofer actio chwedl Canute a'r môr ym myd crefydd heddiw. Ys dywed: "Rhaid fod gennych y dewrder i dderbyn heb gêl ddedfrydau anwadadwy gwyddor hanesyddol."

Ond y mae'r Deon Inge yn fwy ysgubol canys dywed,—"Gwyddor ydyw'r Nemesis sy'n dynesu'n araf ac wedi dal Cristionogaeth wedi'i hanwareiddio a'i phaganeiddio. Y mae wedi dod a'r wyntyll yn ei law ac ni phaid nes llwyr lanhau ei lawrdyrnu."

Y mae *criticism* arweinwyr crefydd wedi synnu a syfrdanu pobl gyffredin. Fe gyll llawer eu ffydd yn Nuw neu yr hyn a arferid alw yn ffydd ond nid oes dim yn newid ond y ffurf a'r modd. Dyn yn mynegi hen wirionedd mewn geiriau newydd. Y mae popeth sy'n dragwyddol yn dal. Y tymhorol, y wisg, y termau sy'n cyfnewid oherwydd mynd ohonynt yn hen ffashwn. Ond y mae profiad personol cymundeb calon dyn a Duw heddiw a ddoe yr un ac yn dragywydd.

* * *

Norman Lockyer Darlith y Deon Inge.

Ychydig ddyddiau'n ol traddododd y Deon Inge ddarlith Norman Lockyer ar "Scientific Ethics" a maentumir fod sialens ymhob brawddeg. Rhwydd gweld hynny o feddwl am ei destunau, er engraifft:—ofergoeliaeth, *blood sports*, trefi heddiw, *birth control*, corffolaeth y genedl a phroblemau gweithfaol gan ddangos inni drend bywyd ymhob cyfeiriad. Er ei alw yn "*gloomy*" y mae rywsut yn brofoclyd i'r meddwl

bob cam a dywed " Y mae trychineb bob amser yn bosibl ond ymddengys y siawns fod gan y ddynoliaeth gan mil, hwyrach filiwn o flynyddoedd i gynnyg pob arbrawf (experiment) posibl ac amhosibl."

Os felly medrwn ninnau ddymuno Nadolig llawen i'n gilydd o wybod y bydd plant ein plant am genedlaethau yn cerdded yr un llwybrau a ninnau i gyfeiriad perffeithrwydd ac yn nerth yr un Duw a Thad oll.

Hen Arferion Nadolig.

" Gogoniant yn y goruchaf i Dduw, ac ar y ddaear tangnefedd, i ddynion ewyllys da."—*Luc* 2 : 14.

" At Christmas play and make good cheer
For Christmas comes but once a year."
THOMAS TUSCER.

"NADOLIG LLAWEN"! Mor syml y geiriau ac eto y maent yn deffro rhyw deimladau caredig ynom gan alw yn ol hen atgofion pan gyfarchwn ein cyfeillion ar brif wyl y flwyddyn Gristionogol. Fe welir ei dechreu yn y cyfnod paganaidd yn hen wyl fawr Sadwrn (Saturn y Sais), ac yn myned Alban Arthan (Winter Solstice) a ddethlid gyda llawenydd ac ardderchowgrwydd drwy gydol Ewrop yn yr oesoedd tywyll. Yn unol ag arfer hen Eglwys Rufain fore mabwysiadwyd a chyfaddaswyd hen ddefodau'r wyl i ddibenion y ffydd newydd. Felly y trowyd yr hen wyl baganaidd canolgaeaf yn Nadolig.

Fe elwir yr amser ambell dro yn "*yule-tide*" (*haul* yn yr Iaith Geltaidd) oddiwrth yr hen arfer o losgi plocyn a oedd mor annwyl i'n cyndeidiau o Lychlyn, oherwydd tanient hwy goelcerthi ar Alban Arthan er anrhydedd ei duw Thor (brenin y daran ac a welir yn y gair Thursday—Thor's day). Cynneu'r hen blocyn mawr ar aelwyd y teidiau a dyma olau nwy a thrydan yr hen neuaddau gynt. Dywedir mai Julian y Cyntaf, Pab Rhufain o 337 i 352 O.C. a bennodd ddyddiad Nadolig ond maentumir na ddathlwyd Nadolig ym Mhrydain hyd amser Arthur, pryd bynnag oedd hynny, rywbryd tua chanol y chweched ganrif.

Y mae'r arfer o addurno'n tai a'n heglwysi a bythwyrddion yn hen iawn. Yr oedd ein hynafiaid paganaidd yn prydferthu'u

temlau ag iorwg a chelyn ar wyl Sadwrn ond ni oddefid mo'r *mistletoe* oherwydd ei gysylltiad a Derwyddiaeth. Arferai'r Rhufeiniaid gyflwyno i'w cyfeillion ganghennau o iorwg fel dymuniadau da am eu hiechyd a'u hapusrwydd. Yn yr Almaen a'r Gogledd gelwir yr holly, y goeden sanctaidd—the *holy* tree yn Ddraenen Crist. Yn ol hen wheddel y ddraenen oedd pren y groes, ei dail oedd pleth y goron a'r criafol coch y sydd arni yn arwyddo dafnau gwaed Crist.

Y mae'r eiddew a'r iorwg yn arwydd o fywyd tragwyddol oherwydd fod y dail drwy'r flwyddyn yn fythol wyrdd. Nid oes un pren, os iawn ei alw'n bren—wedi'i gysylltu'n agosach a chwedl (myth and legend) na'r mistletoe a elwir felly oherwydd fod y missel thrush (tresglen) mor hoff o'i griafol, ac yn yr hen amser tyfai'n gyffredin yng ngogledd Sir Bemfro. Er cyn cof ystyrrid y *mistletoe* fel meddyginiaeth at bob clefyd tra dywed Fferyllt fod ynddo briodoleddau dewinol. Daliai'r Derwyddon y planhigyn mewn ofn a pharch oherwydd tybio ei fod yn deillio o'r dderwen ac yn y canol oesoedd gwisgid tamaid ohono o gylch y gwddf fel swyn yn erbyn clwyfau a llongddrylliad gan filwyr, morwyr a phererinion. Gelwid y mistletoe yn Gangen Aur (The Golden Bough) ac yr oedd iddo ystyr arbennig i gariadon ; wedi'u rhoi i dduwies serch i'w cadw, pob un a ai odditano a gusenid er dangos fod y gangen yn arwydd o gariad ac nid o angau. Dywedid fod y Tylwyth Teg yn gorllwyn bwthyn a phlas gyda'i miwsig yr adeg hon ac fod y rhai a enir ar y Nadolig wedi'u breintio a galluoedd i wella a swyngysgu a'r hyn a elwir yn *second-sight*.

Yn y canol oesoedd fel heddiw yr oedd y ginio Nadolig yn holl bwysig. Ar y bwrdd yr oedd pen y baedd wedi'i addurno a rosmari oherwydd aberthid y baedd y Nadolig i dduwies heddwch a digonedd. Yr oedd yna hefyd *peacock pie* wedi'i haddurno a phlu cynffon y paun. Yr oedd yn arwyddol oherwydd ystyrrid ei gnawd yn anllygredig nes peri cymryd y paun fel *type* o'r adgyfodiad. Gwyddom bob yr un er ein poen ambell dro am y *plum pudding* heb wybod ei ystyr. Y mae i'r plum pudding a'i gymysgfa o ddefnyddiau ystyr arbennig yn ogystal ag i'r mince pie—y cyntaf yn arwyddluniol o offrwm y doethion o'r dwyrain i'r plentyn Iesu, y llall o'r preseb lle'i gosodwyd ac fe wneid y *paste* oedd drosti ar ffurf y rhastal wair.

Wedi hyn ceid y *wassail*, mor dderbyniol yn hen gartrefi Cymru 'slawer dydd. Paratoid y ddiod gan feistr y ty mewn cwpan cyffredin. Cymerai'r meistr ddogn ac estynnai'r cwpan oddiamgylch er i bobun yfed ohono yr un fath a'r cwpan cariadus (the loving cup). Nid oedd ei gynnwys ond diod waith gartref

boeth, wedi'i melysu a siwgwr a'i blasu a *spice*. Nid yw Coeden Nadolig (Xmas Tree'r plant) yn hen. Ni ddaeth yma ond gyda'r tywysog Albert o'r Almaen ac ni ddechreuwyd llunio y cerdyn poblogaidd unwaith cyn 1844, a'r cracker ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach.

Nid felly gyda'r blwch Nadolig (Christmas Box). Clywwn am hwn yn nyddiau bore Cristionogaeth pan osodid blychau o glai yn yr Eglwysi er derbyn elusen ac fe'u hagorid gan yr offeiriaid ar y Nadolig a rhennid y cynnwys rhwng y tlodion gan ei alw yn rodd neu *dole* blwch y Nadolig.

Ystyr y gair Nadolig yw dydd y geni (Llad. natus) a maentumia rhai ysgrifenwyr mai gwreiddyn y gair carol yw cariad, yn sicr dyna syniad tlws : ar y dechreu nid oedd carolau ond caneuon lleygol, a charol haf oedd cân Mai neu haf, carol gwirawd yn gân wassail, carol plygain neu'r bylgen (ac ystyr plygain yw caniad y ceiliog) neu'r wir garol Nadolig—gennid gyda'r tannau yn y bore bach. Cynhelid gwasanaeth y plygain yn eglwys y plwyf yng Nghymru cyn y Diwygiad Protestanaidd gyda thoriad y wawr ac y mae'n ddiddorol cofio y cynhelir yr hen arfer yn Llandysul a mannau eraill hyd heddiw.

Gyda threigl amser fe wywa llawer i hen arfer a heddiw gŵyl y plant yw'r hen ŵyl. Y mae St. Nicholas neu Santa Claus yn y tir ac yn fawr ei barch ynghalonnau plant Cymru oherwydd llanw ohono'u hosanau ar yr hen wyl.

Dyma dymor troi tuag adref, tymor y gwyliau, tymor y galon hael a charedig pan gryfheir rhwymau y bywyd teuluol gan eu gwneuthur yn abl i ddal pwys a gwres blwyddyn arall.

Gadawer i'r hanesyn bychan hwn ddangos ysbryd gwir y Nadolig. Credir yn gyffredin mai tri oedd y magi—y doethion o'r dwyrain a ddaeth i addoli ger crud Crist ond y mae yna draddodiad fod yna *bedwerydd* dyn doeth, ond iddo ddod yn ddiweddar i'r lle apwyntiedig a chael ei gyfeillion wedi mynd. Gan brysuro i'w daith gyda'i anrhegion, ruby, ring a darn o aur daeth Arteban ar draws hen gardotyn tlawd a chan na fedrai wrando'i gri am elusen rhoes iddo'r darn aur. Yn ddiweddarach rhoes ei *ruby* i fam, plentyn yr hon a werthid ym marchnad y caethion, a'r ring i adyn yng ngharchar y dyledwyr.

Pan gyrhaeddodd Fethlehem ac yn troi o'r dafarn yn drist oherwydd na ddug ddim addoliad i'r Brenin, cafodd weledigaeth. Ymddangosai Crist fel pe buasai yn dal yn ei law y tair rhodd a

rannodd Arteban ar ei daith. Ymhen blynyddoedd clybu'r geiriau "yn gymaint a'i wneuthur ohonoch i un o'r rhai bychain hyn, i mi y'i gwnaethoch."

Fe geir y chwedl hon wedi'i chanu yn ardderchog gan "Gynan" y bardd cenedlaethol yng "Nghaniadau Cynan" ac er dwyn y llyfr i sylw'r darllenwyr rhoir y gân yma er dangos ysbryd Crist ac ysbryd y Nadolig.

BALED Y PEDWAR BRENIN.

O Bedair gwlad yn y Dwyrain poeth,
Cychwynnodd y pedwar brenin doeth
Am eira'r Gorllewin, dan ganu hyn :
O ! Seren glir ar yr eira gwyn.

Y seren a welsant o'u pedair cell,
A dynnodd ynghyd eu llwybrau pell,
A chanai clychau'u camelod drwy'r glyn :
O ! Seren glir ar yr eira gwyn.

Daeth tri ohonynt yr un nos
I dref a ffiniau Canan dlos,
A chanent o hyd a'u lanternau ynghyn :
O ! Seren glir ar yr eira gwyn.

"Beth a ddygasoch chwi yn awr
O'ch gwlad yn rhodd i'r brenin mawr ?"
Agorodd y tri eu trysorau pryn
Dan y Seren glir ar yr eira gwyn.

"Aur o wythien oreu fy ngwlad :"
"Thus o demlau duwiau fy nhad" :
"Myrr i'r brenin—cans marw a fyn :"
A ! Seren glir ar yr eira gwyn.

* * * *

Ond y brenin arall, ple 'roedd efo ?
A pheth a ddygasai ef o'i fro ?
A phaham y tariai ef fel hyn,
O ! Seren glir ar yr eira gwyn.

Fe gychwynasai yntau'n llon,
A pherl brenhinol ynghudd wrth ei fron,
Ond gwelodd yn Syria, a'i dagrau'n llyn,
Ferch mewn cadwynau'n yr eira gwyn.

Brathau'r hualau oer i'w chnawd,
Ond llosgai'i deurydd morwynol gan wawd
Y gwerthwr caethion. Syllu'n syn
A wnai'r Seren glir ar yr eira gwyn.

Mae'r brenin yn llamu o'i gyfrwy gwych ;
Mae'r perl yn neheulaw'r gwerthwr brych ;
Mae'r eneth yn rhydd, a'i gwefus a gryn
Fel y Seren glir ar yr eira gwyn.

Ond trodd y brenin ei gamel yn ol
Dan ocheneidio a churo'i gol :—
" Ofer heb rodd fynd ymhellach na hyn
Gyda'r Seren glir dros yr eira gwyn."

* * * *

Flynyddoedd ar ol colli'r gem
Daeth yntau i byrth Ieriwsalem,
A gwelodd uwch Calfaria fryn
Y Seren a fu ar yr eira gwyn.

'Roedd yno Un mewn angeu loes,
A milwyr Rhufain wrth ei groes ;
Ond gloywach fyth na'u gwaywffyn
Oedd y Seren fu ar yr eira gwyn.

Canys rhwng drain y goron lem
Fe ganfu'r brenin belydrau gem
Ar ael y Gŵr oedd ar y bryn
Megis Seren glir ar yr eira gwyn.

" Pa fodd, fy Arglwydd, y cefaist ti
Y perl dros ' y gaethferch a roddais i ' ? " . . .
" Yn gymaint a'i wneuthur i un o'r rhai hyn
Fe'i gwnaethost i Arglwydd yr eira gwyn."

Gellifaharen. KATIE JONES

Davis Castellhywel.

DIOLCHWN o galon i'r Awduron am yr ysgrifau diddorol ac adeiladol yn "YMOFYNNYDD" Hydref ar y gwron uchod. Amhosibl oedd i "Gardis" ar wasgar fod yn y Llwyn ar ddydd Dathlu Canmlwydd ei farw, gan hynny hyfryd oedd cael yr anerchiadau ar "ddu a gwyn."

Er mor llawn ac mor gywir ydynt, i ni fel Annibynwyr y mae pennod arall a ellir ei hysgrifennu, sef perthynas Davis a'n henwad ni drwy amryw o'r ysgolheigion a fu wedi hynny'n llanw lleoedd amlwg yn ein plith. Ar gais caredig y Golygydd dymunwn draethu ychydig ar hyn.

Ni wyddom nifer y pregethwyr Annibynnol a fu yng Nghastellhywel, ac wedi hynny yn y weinidogaeth arferol, fel y Parch. J. Saunders, Aberystwyth ac eraill. Ond gwyddom am bedwar dyn ifanc a fu yno yn cael eu gosod ar ben y ffordd, a ddaeth wedi hynny'n athrawon adnabyddus mewn sefydliadau i baratoi bechgyn ifeinc erbyn y weinidogaeth, a dygant dystiolaeth difloesgni i fedr eu hen Athro fel addysgwr.

Y cyntaf a gawn nodi yw'r

PARCH. DAVID PETER.

Ganwyd ef yn Aberystwyth, ond dygpwyd ef i fyny yn ardal y Ceinewydd, lle y daeth dan ddylanwad y Parch. B. Evans, Drewen, a gofalai hefyd am Benrhiwgaled. Cafodd ei addysg ganolradd yng Nghastellhywel ac wedi hynny yng Ngholeg Caerfyrddin. Wedi symud o'r sefydliad hwnnw i Abertawe, ac ar derfyn ei yrfa, gwnaed Mr. Peter yn Athro cynorthwy. Yn 1792 cafodd alwad i Heol Awst Caerfyrddin, lle bu'n llwyddiannus anarferol fel gweinidog, a dylanwadol fel dinesydd. Ymgymerodd hefyd ag hyfforddi dynion ifeinc ar gyfer y weinidogaeth. Yn 1795 dychwelodd yr Athrofa i Gaerfyrddin, a gwnaed Mr. Peter a'r Parch. D. Davies, Llanybri'n athrawon ynddi. Parhaodd cysylltiad Mr. Peter a'r sefydliad hwn am 40 mlynedd gyda ffyddlondeb a pharch mawr. Teimlwn yn sicr ddigon mai hyfforddiant Dafis Castellhywel yn anad neb oedd yn cyfrif am ei lwyddiant fel Athro.

Rhagorach ei ddoniau naturiol a mwy cyrhaeddbell ei ddylanwad oedd

DR. PHILLIPS, NEUADDLWYD.

Yn ol ein barn bersonol ni, hwn yw'r Annibynwr a wnaeth fwyaf dros ei Waredwr a'i enwad o bawb yng Nghymru.

Yr oedd yn bregethwr digymar. Dywedai'r diweddar Barch. John Davies (Shon Gymro) mai'r Dr. ar un adeg oedd prif bregethwr y Dywysogaeth. Er mai barn bersonol oedd hon, eto dengys beth feddyliai gwr dysgedig a chraffus am dano.

Gwyddom fwy am dano fel Athro oherwydd ei gysylltiad a'i Athrofa, pryd yn ystod 30 mlynedd y bu tua 200 o fyfyrwyr yn cael eu hyfforddi ganddo ar gyfer y colegau a'r weinidogaeth. Ymwasgarodd y rhai hyn i'r Meysydd Cenhadol, i'r America, heb son am Gymru a Lloegr.

Rhagorai ef, nid ar gyfrif swm ei wybodaeth, ond ei fedr i drosglwyddo'r hyn a wyddai i eraill, a chan ei heu Athro y cafodd gyfarwyddyd yn hyn. Dywed ei fywgraffydd fel y canlyn :

" Er na chafodd ef ond ysgolion cyffredin, eto cafodd ysgolfeistri rhagorol i gyd, . . . yn neilltuol y Parch. D. Davies, Castellhywel, yr hwn a gyfrifai'n rhagori ymhell ar holl ysgolfeistri Cymru."

Hon yw tystiolaeth y diweddar Barch. J. R. Kilsby Jones :

" Y tebycaf, a'r ail i Mr. Davis, Castellhywel oedd y Dr. Phillips. Ar un amser bu Neuaddlwyd mor enwog a Chastellhywel. I'r ddau enwog hyn y mae " Gwyllt Walia " dan rwymau annisgrifiadwy. Pa le y ceir eu tebyg ! Ni wn am un ysgol ag sydd yn debyg o gyrraedd degwm poblogrwydd ac enwogrwydd Castellhywel a Neuaddlwyd." Cofier i hyn gael ei ysgrifennu yn 1844.

Dyma eiriau'r Dr. ei hun :

" Yn y flwyddyn 1791 aethum i Gastellhywel, at y Parch. D. Davis, lle y treuliais 14 mis. Yma y cefais fantais nas gallaf ei phrisio,—i'm sefydlu a'm gwreiddio yn egwyddorion Lladin a Groeg."

Yn ol popeth a ellir weld, dylanwad Davis Castellhywel a osododd y Dr. ar ben y ffordd i fod yn Athro mor effeithiol.

Yn nesaf deuwn at gymeriad pur wahanol, sef :

Y Parch. Michael Jones

o Lanuwchllyn, ac wedi hynny o'r Bala, a thad y Prifathro M. D.

Jones. Yr oedd mor alluog o feddwl a deall, os nad mwy felly, na'r ddau flaenorol, er nad oedd yn boblogaidd iawn fel pregethwr. Codwyd ef dan Dr. Phillips yn Neuaddlwyd, ond cyn sefydlu'i ysgol yno. Aeth ef fel y ddau arall i Gastellhywel, ac wedi hynny bu yn Athrofa Gwrecsam dan Dr. Jenkin Lewis ac wedi hynny Dr. George Lewis. Cafodd alwad i Lanuwchllyn yn olynydd i Dr. George Lewis, ac yn ei amser ef bu yno helyntion blin oherwydd yr Athrawiaeth.

Cymerai hefyd wyr ifeinc i'w hyfforddi gogyfer a'r weinidogaeth, ac yna ar ol symudiad yr Athrofa o'r Drenewydd i Aberhonddu a sefydliad Athrofa'r Gogledd, ef a benodwyd yn Athro cyntaf iddi, a pharhaodd yn ei waith o 1841 hyd 1853. Yr oedd yntau'n addysgwr llwyddiannus iawn, a chynghorwr a hyfforddwr doeth. Dyn anarferol o gryf ei gynheddfau oedd Michael Jones, a chlywsom Ap Fychan yn dweyd fwy nag unwaith mai ef oedd y cryfaf o feddwl a gyfarfu erioed. Barn Mr. Jones yntau oedd mai ei hen Athro Mr. Davis Castellhywel oedd yr ysgolhaig gwychaf a adnabu erioed. Clywsom hefyd ei fab Michael D. Jones yn dweyd mai i Ddavis yr oedd ei dad yn ddyledus am ei wybodaeth o'r clasuron, a'i fedr i drosglwyddo'r wybodaeth honno.

Wedi marw'r Athro David Peter yn 1835, penodwyd

Y Parch. David Davies

a oedd ar y pryd yn weinidog ym Mhanteg, ger Caerfyrddin, yn Athro yn y Coleg. Yr oedd yntau o'r Neuaddlwyd, ac yn ddiau mai wrth gyngor ei weinidog Dr. Phillips yr aeth i Gastellhywel. Ni wyddom i ba raddau y disgynnodd mantell "Davis" arno ef, ond bu'n llwyddiannus fel gweinidog a thiwtor. Yr oedd yn bregethwr dymunol dros ben. Pan ddisgrifia'r Parch. Kilsby Jones ei hen Athro Dr. Phillips fel pregethwr, dywed nad oedd wedi efelychu neb, ac na fedrodd neb, am a wyddai, ei efelychu yntau, ond y tebycaf iddo yng Nghymru oedd Mr. Davies, Panteg.

Ni wyddom i ba raddau y daeth dylanwad Davis Castellhywel ar Dr. Dafis Ffrwdfal ymhellach na'r hyn geir yn "Yr Ymofynnydd." Ond gellir casglu'n deg fod y blaenaf yn fath ar *ideal* gan yr olaf. Os felly, taflodd Castellhywel i fesur ei gysgod dros Ffrwdfal hefyd.

Dyna ddigon i brofi fod yr enwad Annibynnol yn rhwymedig iawn i'r hen Athro o Gastellhywel am gyfarwyddo a hyfforddi ym myd y pethau bychain fechgyn ifeinc, a fu wedi hynny o gymaint gwasanaeth.

" RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD."

.....

YR YMOFYNNYDD.

CYLCHGRAWN MISOL CYMDEITHAS UNDODAIDD DEHEUDIR CYMRU.

.....

GOLYGYDD—
Y PARCH. T. OSWALD WILLIAMS, M.A., LLANBEDR.

.....

" PROFWCH BOB PETH, DELIWCH YR HYN SYDD DDA."

.....

—CYFRES LLANBEDR.—

.....

CYFROL 27.

1927.

.....

Llandysul:
Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer.

CYNNWYS.

Adolygiadau, 134, 280.
Addoliad Boreol, 60.
Annerch i'r Flwyddyn Newydd, 1.
Apel, 36.
Apel at Eglwysi Undodaidd Cymraeg Ceredigion a Morganwg, 193.
Ar Grwydr, 29, 107.
Arholiad Ysgolion Sul Undodaidd Ceredigion, 172.
Atgofion Henafgwr, 236.
Atgofion Hen Fedelwr am Gynhaeaf Henfforddd, 88.

Basgedaid o Friwsion, 83.
Braslun o Fywyd Davis (Castellhywel) 201.
Breiniau Dyn, 79.

Canvaso, 175.
Castellhywel, 242.
Clychau'r Llan, 192.
Coleg Caerfyrddin, 8.
Crefydd, 35, 95.
Crogi, 273.
Cwm Pennant, 258.
Cyfnod Iolo, 42.

Davis (Castellhywel) a Choleg Caerfyrddin, 230.
Davis a Phleidwyr y Chwyldro Ffrengig yng Nghymru, 215.
Davis Castellhywel, 270.
Davis Castellhywel: Ei Syniadau Crefyddol, 223.
Davis Castellhywel : Prydydd a Chyfieithydd, 206.
Da yw Duw, 80.
Dyrifau Deio'r Efail, 252.

Edward Williams (Iolo Morgannwg), 40.

Gwag a Llawn, 256.
Gwlad Iolo, 75.

Heddwch, 114.
Helynt Iolo, 51.
Hen Arferion Nadolig, 265.
"Hwn yw fy nghorff—", 275.

Iolo Morganwg, 61.
Iolo Morganwg ac Oes Rhamant, 45.
Iolo Morganwg a'r Chwyldro Ffrengig, 53.
Iolo Morganwg: yr Undodwr a'r Emynydd, 64.

Joseph Estlin Carpenter, 165.

Llythyr, 97.
Llythyr Agored, 253.

Maes Llafur 1927—28, 261.
Mam, 121.
Marwgofion, 19, 37, 98, 117, 136, 157, 178, 196, 259, 281.
Marw Plentyn, 74.
Meddwl ac Ysgrifennu, 104.

Nodiadau'r Golygydd, 2, 21, 81, 101, 141, 161, 243, 263.
Nodion yr Eglwysi, 39, 100, 119, 139, 159, 180, 198, 260, 282.

O Dir Atgof, 232.

Pa le mae'r Nefoedd ? 152, 168.
Pelydr a Chwmwl, 7.
Pennod o Shiprys, 31, 147.
Priodasau, 87, 117, 136, 157, 179, 196, 259, 274.
Pwyllgor Hydref y Gymdeithas, 255.
Pwyllgor y Pasc, 115.

Rhai o Bleidwyr y Chwyldro Ffrengig yng Nghymru, 247.
Rhwng Dau Oleu, 26.
Rhyfeddodau'r Oes, 24.

Siar Lefi, 103.
Siom, 36.
Swyddogaeth yr Ysgol Sul, 130, 144.
Symposium, 3.

Tabled Coffa Iolo Morganwg, 13.
Trem ar Ddavis (Castellhywel), 203.
Trydan, 251.

Y Ddwy Weledigaeth, 123.
Y Gymanfa Ganu, 156.
Y Parch. Rees Cribin Jones, 189.
Y Pwyllgor Blynyddol, 194.
Yr Athro W. J. Evans, M.A., 93.
Yr Hybarch Rees Cribin Jones, 181.
Yr Ysgol Sul yn Niwylliant Gwerin Cymru Heddiw, 15.
Yr Ysmotyn Du, 113.
Ysbrydoliaeth, 110.
Ysgolia, 126.
Y Wennol, 164.

Gellir ychwanegu hefyd, na chymerodd yr hen Athro fantais annheg i wasgu ei ddaliadau diwinyddol ar ei ysgolheigion. Dywedir fod yr Athro Peter yn Efengylaidd ei syniadau, ond mai ymarferol fel rheol oedd ei bregethau. Calfinaidd oedd Dr. Phillips, ond nid oedd byth yn ymosodol. Ac am Michael Jones a Mr. Davies, Panteg, cefnogwyr pybyr oeddynt i'r "System Newydd," neu Galfiniaeth gymhedrol.

Hyderwn yn galonnog iawn y bydd hanes Davis Gastellhywel yn ysbrydiaeth o'r newydd i ni yn yr oes hon, ac y bydd ei nwyd sanctaidd dros ryddid, difrifwch ei foes a'i grefydd, ei fanylwch fel Athro, a'i gefnogaeth i ddiwylliant yn nod i fechgyn ifeinc yr ugeinfed ganrif.

Croesoswallt. J. J. Jones.

Crogi.

A DDYLID CROGI LLOFRUDDION?

MAE'R pwnc hwn wedi cael llawer o sylw yn ddiweddar ym Mhrydain ac America. Mae'r Athro John Lewis Gillin wedi cyhoeddi cyfrol fawr ar y cwestiwn. Rhaid iddo addef, ar y cychwyn, fod troseddau ysgeler yn fwy mynych yn America nag mewn unrhyw wlad arall. Yn y flwyddyn 1916, llofruddiwyd naw yn Llundain ond 105 yn Chicago—"y ddinas waethaf yn y byd." Yn 1913, llofruddiwyd 323 yn ninas New York; ond ni ddaliwyd ond 185 o'r troseddwyr. Er fod troseddau ysgeler yn tueddu at leihad mewn llawer gwlad, y maent ar gynnydd yn America. Ym mhlith y troseddwyr, y mae Gwyddelod yn aml dros ben canys er nad yw'r Gwyddelod ond megis un o bob deg o'r "tramoriaid," y maent megis un o bob pedwar o'r carcharorion. Mae tua 500,000 o bersonau yn cael eu carcharu bob blwyddyn; ac y mae'r gost i'w cynnal yn hanner miliwn o bunnoedd bob diwrnod. Dengys yr awdur yn eglur fod America ym mhell iawn ar ol yr oes yn ei hymwneud a throseddwyr. Y mae gweinyddiad y gyfraith yn ansicr, aneffeithiol, creulon, a barbaraidd.

Mae un Mr. Calvert wedi cyhoeddi llyfr dan y teitl "Capital Punishment in the Twentieth Century." Am lawer rheswm pleidia efe ddileu y gyfraith sydd yn gorchymyn crogi llofruddion. (1) Mae crogi llofrudd yn "drais ar urddas bywyd dyn." (2) Mae

crogi yn crchyllwaith sydd yn diraddio carcharorion, swyddogion y carchar, perthynasau y llofrudd a pherthynasau y llofruddiedig. (3) Mae'r gosp yn aneffeithiol fel atalfa ar lofruddio.

Honnir yn fynych gan gefnogwyr y gyfraith bresennol fod profiad amryw wledydd, lle mae cosp marwolaeth wedi ei dileu, yn anffafriol. Ond yn ol Mr. Calvert, nid oes dim tystiolaeth a ddengys fod llofruddio wedi amlhau yn y gwledydd dan sylw.—Holland, Norway, Sweden, wyth o dalaethau America ac eraill. Ond y mae ystadegau Ffrainc, cyn belled ag y gellir eu deall, braidd yn anffafriol.

Un rheswm pur gryf, ym marn yr awdur, yw hwn—sef fod rheithwyr, oherwydd eu gwrthwynebiad i ddeddf crogi, yn fwy-fwy parod i ryddhau dynion a gyhuddir o lofruddiaeth ; a bod hynny, weithiau, yn arwain i ganlyniadau alaethus.

Yn lle crogi llofruddion, dylid eu cadw mewn carchar am dymor hir. Yn ol Mr. Calvert, digon fyddai hynny. Ond efallai na lofruddiwyd eto neb yn agos ato ac annwyl ganddo.

Y gwir bwnc yw,—Pa beth yw diben ac amcan cosp ? Ai dial, a dim ond hynny ? Nage ! Ai amddiffyn cymdeithas rhag trais ac anghyfiawnder ? Os felly, dylai'r gosp fod yn effeithiol at gyrraedd yr amcan. Ai gwella cymeriadau y rhai a gospir ? Ac addef fod rhai carcharorion yn dysgu gwersi, y mae sail i ofni mae gwaethygu yn hytrach na gwella y mae truenusion y carcharau.

Fy nghasgliad i yw hyn : Ofer yw dial ; ofer yw ceisio gwella carcharor drwy gospi. Ond rhaid amddiffyn cymdeithas. Y mae crogi yn effeithiol, ond yn farbaraidd. Gwyddys fod plant ac wyrion troseddwyr yn chwannog i dripio fel eu rhieni. Onid yw'r llwybr dianc yn eglur. Atal troseddwyr ysgeler rhag epilio—dyna'r unig " gosp " gwerth son am dani.

Pwy.

Priodas.

Yn yr Hen Dy Cwrdd, Trecynon, dydd Sadwrn, Hydref 22, o flaen y Cofrestrydd a'r Parch. E. R. Dennis, priodwyd Mr. Josiah Owen Davies, a Miss M. J. Davies, Llewelyn Street, ysgrifenyddes Ysgol Sul yr Hen Dy Cwrdd. Siwrne dda iddynt.

"*Hwn yw fy nghorff*---."

NID oes angen galw i gof fod y geiriau hyn yn rhwygo'r eglwys heddiw ac fe geir erthyglau ar y sacramentau beunydd a gwyddom am eni'r cylchgrawn newydd "The Outline" o'r ymrannu. Ynddo fe geir dyfyniad o bregeth Dr. Barnes a ddengys yr ysbryd newydd,—"Ba gyngor a roddaf i fechgyn wedi'u geni i'r fath gyfnod? A ddywedaf 'Glynwch wrth yr hen ffydd'? Dywedaf yn hytrach, 'Ceisiwch y gwirionedd. Gorfoleddwch oherwydd eich bod yn byw yn un o gyfnodau mwyaf ei gynnydd gwyddonol yn hanes dynoliaeth. Croeshewch ddarganfyddiadau newydd â meddwl agored. Perchwch y bobl fawr sy'n eu gwneuthur.' * * * O ganlyniad y mae chwedl creu Adda ac Efa, eu diniweidrwydd cyntefig a'u cwymp wedi dyfod yn ddim amgen na chwedloniaeth. * * Y mae buddugoliaeth Darwin wedi dinistrio yr holl drefn (scheme) ddiwinyddol. * * * Mewn gwirionedd, nid un wedi syrthio o ystad berffaith o ddiniweidrwydd mo dyn. Anifail ydyw yn graddol ennill deall ysbrydol a chyda'i enillion yn codi 'nhell uwchlaw ei gyndeidiau pell * * *."

Trois a ddarllenais eilwaith "Hwn yw fy nghorff—". Ni chollent ddim o'u gwerth. Y maent yn medru fy nghyffwrdd i bob tro a theimlaf fel gôf Wil Ifan yn y Cymun Santaidd.—

Fe'i gwelais wrth yr eingion ddoe,
Pan lechwn rhag y glaw,
A'r morthwyl tryma'r efail lwyd
Fel tegan yn ei law;
A gwyliwn mewn eiddigedd llwyr
Ei rwydd ddeheurwydd hy,
Pan blygai i gydio a'i fysedd heyrn
Yn siwrlau'r ebol du.

* * *

Ai'r un yw hwn a'i gerdded gŵyl
Hyd gorau'r capel llwm?
A ydyw'r llester pouter pŵl
I'w ofnus law'n rhy drwm?
Fe gryn ei fysedd mawr wrth ddal
Y Cwpan dwyfol rin,
A'i barchus ofn yn donnau mân
Ar wyneb y Santaidd Win.

Er gwylltu o lawer oherwydd yr ymrannu a'r ymrwygo am barchu ohonynt sefydliad yn fwy na'r gwirionedd, nid oes dim i'w ofni. Yng ngeiriau Dr. Jacks "Y mae gwareiddiad bob amser wyneb yn wyneb a *chrisis*" ac "ni fedr cymdeithas wareiddiedig ennill sefyllfa lle y medr gloddio ei hun i mewn dan amgylchiadau o ddiogelwch perffaith." Nid yw'r ymrwygo ond arwydd o fywyd, yr hen ddillad—yr hen wisg wedi mynd yn rhy fach ac yn rhwygo a bywyd newydd yn mynnu dod i mewn i feddwl ac i galon dynoliaeth. Nid yw'n oedi na phetruso. Y mae wedi gafael yn y Beibl a'i droi yn llyfr mwy byw. Cydia yng nghyrn yr allor ac y mae'n troi'i wyneb fel pe tae at yr offeiriad gan wrando arno'n dywedyd

"Hwn yw fy nghorff—" ac fe ddaw'r ateb yn fwy hyglyw ddydd ar ol dydd.

* * *

Fe geir o leiaf bedwar hanes am y digwyddiad cofiadwy yn y Swper Olaf: 1 Cor. xi, 23-26; Marc xiv, 22-25; Luc xxiii, 15-18, 19-20; Mathew xxvi, 26-29. Rhaid cymryd fod Paul wedi ysgrifennu'i hanes ef rywbryd tua'r flwyddyn 58 O.C., rhyw chwarter canrif wedi'r digwyddiad ac ugain mlynedd o leiaf wedi iddo ef gael y siawns gyntaf i wybod yr hanes. Y mae'r pedwar hanes yn gwahaniaethu. Ni fedrir amau fod y cnewllyn hanesyddol yna ond ni wyddom faint o liw sydd arno. Mynnai Dr. Martineau nad oedd y cnewllyn ddim amgen na Iesu a'i ddisgyblion yn cydgadw y Pasc olaf fel coron eu bywyd crefyddol cyffredin: a'i awydd ar i'w huniad fod yn ddidorr er ei gymryd oddiwrthynt ac wrth ei adnewyddu yn awr ac yn y man y buasai y cof am dano yn ddolen na fedrid ei thorri yn union fel pe bai ei law ef gyda hwynt yn torri'r bara."

Rhydd Martineau hefyd y gweddiau cynharaf y sydd ar gael wrth gyfrannu o Swper yr Arglwydd (Schaffs' Oldest Church Manual). Ni cheir ynddynt ddim sôn am y swper olaf na marwolaeth Crist. Rhydd y weddi gyntaf ddiolch am "winwydden santaidd dy was Dafydd," yr *Eglwys* fel "Israel Duw" a sefydlu *cymdeithas santaidd*. Diolchir yn yr ail weddi am y "bywyd a'r wybodaeth a ddatguddiwyd drwy Iesu, dy wâs." Yn y drydedd weddi rhoir diolch i Dduw am blannu ynghalon dyn amgyffred o'i enw, am roddi drwy Iesu oleuni "gwybodaeth, ffydd ac anfarwoldeb" ac (mewn perthynas i'r bara a'r gwin) *am gyflenwad o fwyd a diod digonol i anghenion naturiol a bywyd ysbrydol*. Nid oes yn y gweddiau hyn ond un apel ar i'r Eglwys gael ei pherfeithio mewn undeb a santeiddrwydd. Nid yw'r cyfan arall ond diolchgarwch a dyna ystyr y gair *Eucharist*.

Y mae'r gair *sacrament* yn cael ei ddefnyddio heb wybod ohonom ei ystyr yn aml. Gair y gyfraith ydyw a saif dros y swm o arian fel ernes neu wystl a roddid gan ddau. Fe'i gelwid felly oherwydd ei dalu i le cysegredig, oherwydd fod arian y dyn a gollai yn cael ei ddefnyddio at amcanion crefyddol neu yn bosibl oherwydd edrych arno fel arwydd neu wystl—*pledge of good faith*. Saif hefyd dros y llw o ffyddlondeb a dyngai milwr pan ai i wasanaeth ei wlad. Yn gymhleth drwy'i ystyr hefyd fe geir dylanwad y gair Groeg a gyfieithir "dirgelwch."

Gofynnir yn y Geiriadur Beiblaidd "Beth yw Sacrament? Os dywedir mai darlun neu arwyddlun yw, onid prif amcan y cyfryw yw goleuo deall, deffro dychymyg a chynhesu calon?"

* * *

"*Hwn yw fy nghorff—*"

Yn nyddiau bore yr Eglwys nid oedd namyn pryd syml o fwyd o'r hwn y cyfranogai'r disgyblion gyda'i gilydd—y cyfoethog a'r tlawd yn dwyn a allai i'r bwrdd. Bu raid i Baul geryddu rhai a gyfranogai ohono am feddwdod a glythineb. O tan offeiriadaeth yn chwilio am allu daeth yn raddol yn seremoni ddewinol a gwyrthiol er nad yw athrawiaeth Eglwys Rufain mor amrwd ag y credir yn aml. Maentumir heddiw gan lawer yn Eglwys Loegr ac eglwysi eraill o ran hynny fod y bara'n troi'n gnawd a'r gwin yn waed Iesu Grist. Ni cheisiaf dorri'r ddadl ond rhof i chwi ddyfyniad o bregeth Dr. Barnes ar y Sacrament. "Y mae yn ein plith bobl a'u cred sacramentaidd heb fod ymhell oddiwrth eiddo'r eiluniaddolwr Hindwaidd cwrteithiedig. Honnant y medr offeiriad o ddefnyddio'r geiriau a'r actau iawn gyfnewid tamaid o fara fel y ceir o'i fewn Bresenoldeb Real Crist. Medrir gwrthbrofi'r syniad drwy arbrawf. Pe buasai cyfnewid materol yn y bara, medrai dadelfeniad gwyddonol (chemical) ei ddangos. Cytunir na ddigwydd mohyna. Eto os oes yna gyfnewidiad ysbrydol, y mae'n sicr yn bosibl ei adnabod drwy weledigaeth ysbrydol. Haeraf yn awr a phwy a fedr fy amau nad oes ddyn byw pe rhoddid iddo ddarn o fara a fedrai ddywedyd p'un ai ydoedd wedi'i gysegru a'i peidio. Yn bersonol, y mae'n anodd gennyf gysylltu unrhyw ystyr i gyfnewidiad ysbrydol mewn mater marw; ond os oes yna gyfnewidiad felly, yn sicr mae yna rywun a fedr ei ganfod. Onid oes yna un felly, nid yw cred yn y fath gyfnewidiad ond ofergoeliaeth ofer."

Y mae'r gwirionedd yn chwythu lle y mynno a ni a glywwn ei sŵn ef heddiw. Nid oes dim terfynol yn ein byd ni hyd y gwyddom.

Y mae'n rhaid i'r gwirionedd am grefydd fod yn ddatguddiad cynhyddol neu ni bydd byw yr Eglwys, ac y mae'n ddiddorol i bob un ofyn i'w galon ei hun beth yw'r neges iddo ef ym mrawddeg Iesu—"*Hwn yw fy nghorff—*".

* * *

O'm blaen y mae dau lyfr, eiddo yr Athro Syr Arthur Keith—Ei araith o gadair y British Association, Awst 31, 1927 "Concerning Man's Origin" lle dywed "Beth yw dechreu dyn? A oedd Darwin yn iawn pan ddywedodd fod dyn tan weithrediadau galluoedd bywydegol (biological) wedi'i godi o le ymhlith *anthropoid apes* i'r lle y mae ynddo'n awr? Yr ateb yw "**ydoedd**," ac wrth roi'r ateb yna siaradaf yn unig fel blaenor (foreman) y rheithwyr—rheithwyr (jury) wedi'u tynnu o restr o ddynion wedi rhoi oes i bwyso'r dystiolaeth. * * Gadawer i'r gwir siarad drosto ei hun." Y llyfr arall yw eiddo Dr. Jacks "A Living Universe" a theimlaf rywsut fod yna ryw safbwynt newydd. Yng ngeiriau'r Hanner Can Pwynt "Dilledyn yw'r byd gweledig o Sylwedd Anweledig. Cyfyngir sacramentau fel y'u dyellir yn gyffredin i ychydig seremoniau eglwysig ond credwn ein bod bob amser ym mhresenoldeb Duw, mai yn Nuw yr ydym yn byw, yn symud ac yn bod. Oherwydd credu ohonom yn santeiddrwydd popeth ni cheir unrhyw effeithioldeb arbennig neu wyrthiol yn y sacramentau fel y'u dyellir yn gyffredin. Dibynna santeiddrwydd unpeth ar yr ysbryd yr agoshawn ato ac ar y teimladau a ddeffroir ynom gan ein meddwl am dano. * * Golygai Iesu un o ddau beth wrth y geiriau. Ewyllysiai i'w ddisgyblion oedd yn bresennol (1) feddwl am dano pryd bynnag y dathlent Wyl y Pasc, neu (2) ei alw i'w meddwl pan eisteddent i fwyta."

* * *

"*Hwn yw fy nghorff—*"

Yn y dyddiau hyn y mae angen pob cymorth arnom i gadw gafael ar yr anweledig. Y mae gennyf lawer *keepsake* na fynnwn er dim eu colli am eu bod yn cadw rhyw atgof yn fyw a gwresog ynof, ac oherwydd fod "Y Cymun" neu'r "Swper" yn ein dwyn yn yr ysbryd i gymundeb a'n gilydd ger bron Duw gan ein huno mewn ysbryd megis ag eneidiau mawr y gorffennol y mae'n gysegredig yn fy ngolwg i. Y mae'n llwybr i lawer i gael gafael o'r newydd ar Dduw wedi crwydro 'mhell. Ni charaf i ffurfiau a seremoniau fel y cyfryw ond ni fynnaf daflu o'r neilldu yr hen biserau rhag ofn i mi hefyd dywallt y dwr ar y ddaear.

Pwy ddydd yr oeddwn yn aros yn benisel, clywwn hen gloch y llan yn canu, yr oedd yr ystryd yn ddistaw a phawb yn ystod

" dau funud distaw " yn cofio'r bechgyn. Yr ym ninnau ger yr allor yn *Cofio'r Iesu* ac yn cymuno a'n gilydd fel un frawdoliaeth fawr. Yn ol Luc y mae Iesu wedi swperu, ac yn cymryd darn o fara'r Pasc gan ei dorri a'i roddi iddynt ac estyn iddynt y Cwpan gan ddywedyd fod y bara yn dra thebig i'w gorff a oedd ar gael ei ddarnio a'i waed a oedd ar gael ei dywallt, ac y mae'n dywedyd fel rhyw ail feddwl " Gwnewch hyn er coffa am danaf."

Y mae rhyw apel ddistaw yma a ddoi yn ol at ei ddisgyblion yn ystod yr oriau du, ar iddynt fod yn ffyddlon iddo a bob tro y maent yn cydfwyta y mae'r sacrament—y mae'n hen lw megis yn cael ei adnewyddu oherwydd yn y Dwyrain ni cheir gwystl ddifrifolach o ffyddlondeb na chydfwyta bara.

Yr ym yn cofio ein dynion mawr heddiw. Y mae'u coffa yn wynfydedig a phaham na choffhawn un a'i ddylanwad yn uwch a mwy parhaol nag un dylanwad arall yn y byd.

Rhagor na hynyna y mae'n ein dwyn ni i berthynas a'n gilydd fel un frawdoliaeth gerbron Duw—y cyfoethog a'r tlawd, y du a'r gwyn ei groen, heb wahaniaeth gradd na chredo ar un sylfaen fod Duw yn Dad i bawb a ninnau'n frodyr a chwiorydd i'n gilydd. Yr ym yn teimlo rywsut ein bod ni yn cydio'n nwylaw'n gilydd, ie, a chydio'n ysbrydoedd ein gilydd nes cydio'n llaw ac ysbryd Iesu a'i ddisgyblion ar y Swper Olaf yn yr Oruwch Ystafell heb ddim i'n nodi ond ysbryd cariadus ac hunanaberthol. Y mae rhywbeth mewn teimlo felly, teimlo ein bod wedi gwreiddio yn y gorffennol pell ac fod profiad cyfoethog dwy fil o flynyddoedd o'n tu, canu yr hen emynau a fu yn help i godi eneidiau'n nes at Dduw lawer tro, ie, cydio mewn rhywbeth a phopeth sy'n medru plethu ein gweithredoedd ni a'r gorffennol pell a chysegredig. Ys dywedai Dr. Brooke Herford " Yn y distawrwydd wrth y bwrdd, daw atgofion am bobl garedig a da y dyddiau gynt yn ol. Gwelwn eto yr hen gôr lle eisteddai rhywun annwyl * * Po fwyaf a feddyliwn, pellaf i gyd yr hed y meddwl. Daw'r cwpan oddiwrth fin rhyw hen broffwyd, rhyw hen ferthyr, rhyw hen sant, rhyw hen fam yn Israel, ie, oddiwrth fin Iesu ei hun a theimlwn fod cwmwl o dystion o'n hamgylch " a ninnau wedi anghofio byd ac amser yn blant y tragwyddol mewn cymundeb a Duw. " Nid oes ystyr i'r Swper lle na bo cariad Crist yn uno dynion a'i gilydd yn un teulu Duw."

Yng ngeiriau Dr. Drummond " O roi i ddymuniadau Iesu y cylch eangaf posibl, dylasem gofio gydag ef pryd bynnag y torrwn fara mai nid ar fara yn unig y bydd dyn byw ond trwy bob gair Duw : Fe ddaw felly y pryd bwyd mwyaf cyffredin yn *sacrament*

wedi'i sancteiddio a'r ysbryd ac yn dwyn cynhaliaeth i'r enaid yn ogystal a'r corff. * * Ond ar wahan i hyn * * * ceisiwn amserau neilltuol a mannau neilltuol yn llawn o gysylltiadau santaidd trwy y rhain yr adgyfnerthwn gan fywhau ein hargraffiadau pwl o bethau ysbrydol. * * Y mae'i chynnal yn ein cymryd ni allan o'n cylch bach a chyfyng gan ein gosod ni yn y gymdeithas lydan lle y gorffwys cysegriad hunanaberth ar bob calon a Duw oll yn oll.

Y mae cyfranogi o'r Swper yn yr ysbryd iawn yn foddion i nerthu y teimladau defosiynol gan gastellu yr enaid rhag temtasiynau bywyd drwy'r ymdeimlad o'r bywyd cyffredin a'i ddechreu yn Nuw ac aelodaeth mewn cymdeithas byd eang, pen yr hon yw Crist ; a dolen ei brawdoliaeth yw ysbryd y Croeshoeliedig."

X.

Adolygiadau.

Telyn Dewi, sef Gwaith Prydyddawl y Parch. David Davis o Gastell-Hywel, Ceredigion : yn cynnwys amryw gyfansoddiadau o eiddo ei hun, a chyfieithiadau allan o waith rhai o'r prydyddion enwocaf yn y iaith Saesneg, etc. Aberystwyth : Argraffwyd a Chyhoeddwyd gan George Rees, yn Swyddfa'r *Welsh Gazette*, 1927. Pris 3/6.

Yr ym yn ddyledus am yr Argraffiad hwn i lafur cariad Geo. Rees, Ysw., Perchennog y *Welsh Gazette*, Aberystwyth, a rhwydd gweld ei fod mewn cariad a'r gwrthddrych. Y mae'r gyfrol yn lân a phrydferth, wedi'i rhwymo'n ddigon tlws. Y mae'r darluniau o Ddavis, adfeilion hen blas Ffynnonbedr, y cerflun Coffa yn Eglwys Llanwenog, Hen Eglwys Llanwenog, Y Goetre-isaf, Yr Hen Dderwen o dan yr hon yr ordeiniwyd Davis, a Chastell-Hywel yn ychwanegu at werth y gyfrol a'i gwneuthur yn fwy diddorol. Yr oedd yr hen Delyn wedi mynd yn brin ac yn anodd ei chael a chredaf fod Davis yn teilyngu gwneuthur ohonom hyn iddo ar ganmlwyddiant ei farw. Am bob ymdrech, am yr antur, am y llafur cariad ac am roddi inni argrafiad newydd o'r Delyn yr ym yn nyled y Cyhoeddwr a diolchwn o galon iddo.

Wedi canmol rhaid cwyno ychydig. Dywed yn ei ragymadrodd iddo newid yr orgraff yn gynnil a chymhedrol ond buasai yn well gennyf pe buasai wedi gadael yr orgraff yn llonydd am nad yw yn awdurdod ar yr orgraff a thrueni felly chwarae a'r orgraff. Nid oes dim newydd yn y Cofiant hyd y gwn i ac y mae ambell wall anhygoel bron wedi diane i'r Cofiant, er engraifft "Sefydlwyd eglwys y Cilgwyn yn y flwyddyn 1654 gan Philip Pugh, un o arloeswyr y deffroad crefyddol yng Nghanolbarth Ceredigion." Nid amheuaf sefydlu Cilgwyn yn 1654 ond sicr nid Philip Pugh a'i sefydlodd oherwydd ni anwyd mohono am dros ugain mlynedd wedi sefydlu Cilgwyn ac ni ordeiniwyd mohono hyd 1709. Nid wyf yn sicr ychwaith fod eglwys y Cilgwyn wedi glynu wrth ei hen ddaliadau hyd y diwedd.

Ni chwiliaf am frychau ond y mae'n drueni na buasid wedi trafferthu mwy gyda'r Cofiant er iddo fod yn air olaf ac awdurdodol ar hanes bywyd Castellhywel. Nid ydyw Er hyn pryner y llyfr a sicr y bydd pob un a'i pryno yn ddiolchgar am gymwynas Geo. Rees i lenyddiaeth a'i lafur cariad yn estyn gweithiau Castellhywel i'w oes a'i genedl.

HARD SAYINGS OF JESUS. By the Rev. J. Tyssul Davis, B.A., Minister of the Theistic Church. The Lindsey Press, 2/-.

Llyfr Saesneg ydyw, rhyw saith pregeth, seven talks fel y'i gelwir, gan Gymro o Landysul fel yr awgryma'r enw Tyssul. Gwyddom pwy ydyw a gŵyr y neb a'i clywodd hyotled gwr ydyw. Yn y Theistic Church y mae ganddo gynulleidfa gymysg a medrir ei alw ef fel Paul yn Apostol y Cenhedloedd.

Y mae'r awdur wedi cydio yn nywediadau caled Iesu Grist ac yn eu trin mewn modd ffres a hapus. Nid oes yna osgoi anhawsterau. Fe'u hwynebir a dyna lle gorwedd cyfrinach llwyddiant y pregethwr. Dyma'r testunau "Na ofala am yfory," "Maddeu bob tro," "Dod yn dlawd," "Na wrthwynebwch ddrwg," "Cerwch eich gelynion," "Cashau Tad a Mam" "Y mae dicter yn lladd."

Dengys yr ysgrifau hyn fod yr awdur yn gynhefin a llen ei wlad. Cymhara ddysgeidiaeth Iesu ag eiddo crefyddau ereill gyda chydymdeimlad. Addefaf nad wyf yn orhoff o ddarllain pregethau, oherwydd eu bod fel fy eiddo fy hun yn rhy *sych*. Nid felly yma. Tyn ei ddarluniau a llaw gyfarwydd. Y mae rhyw ffresni newydd ar yr holl waith. Nid oes yma ddim yn *stereotyped* a rhwydd casglu fod y neges yn mynd adref i galon y gwrandawyr. Yn ddibetrus gwnae darllain y llyfr bychan hwn les i ben a chalon dyn am ei fod yn gosod dywediadau caled Iesu mewn setting mor ardderchog nes peri inni ddywedyd er mor anodd yw fod y gwir gan Iesu ac fod rhaid ei fyw heb ei bylu cyn cael y byd i'w le a dyn yn ddyn.

Marwgofion.

HYDREF 4, yn 81 mlwydd oed, Mr. Rhys Evans, Bontyfoel, Capel Dewi, plwyf Llandyssul. Un o ardalwyr dyffryn Clettwr Fawr oedd yr ymadawedig, lle y magodd dyaid o blant. Bu yn byw yng Nghriborlwyd a Chwmdyllest, ac erys llawer perth a chlawdd yn yr ardal yn dyst i'w lafur a'i fedrusrwydd. Bu yn weithiwr diwyd ac ymroddgar ar hyd ei oes hir, ac nid oedd ddiwrnod segur yn ei hanes. Yr oedd yn wr adnabyddus yn ei ardal ac iddo barch mawr gan ei gydnabod. Cafodd bob tynerwch yn ei henaint a'i nychdod, ac yr oedd ei gwmni a'i gyngor yn felus hyd y diwedd. Claddwyd ei ran farwol ym mynwent Pantydefaid. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. T. Arthur Thomas, yn cael ei gynnorthwyo gan y Parchn. E. M. Davies (Ficer), W. E. Baker (Curad), a W. G. Griffiths (W.). Gadawodd blant ac ŵyrion a pherthynasau eraill mewn galar o'i golli.

TACHWEDD 2, Evan Jonathan, Tynygwndwn Villa, Felinfach, yn 72 oed. Cyfarfu a damwain ychydig fisoedd yn ol ac ni wellhaodd. Gobeithiai ef wella hyd y diwedd, ond daeth y diwedd yn dra sydyn ac annisgwyliadwy. Yr oedd Evan Jonathan yn un o gymeriadau mwyaf adnabyddus yr ardal. Gwr doniol a phlaen a gwir wreiddiol oedd, dywedai ei feddwl bob amser yn ddi-ofn, a di-ragrith, ac nid oedd yr amheuaeth ym meddwl neb lle y safai parthed unrhyw fater; yr oedd o galon garedig, yn gymwynaswr rhadlon ac yn gymydog diddrwg. Hanai o deulu lluosog a theulu a fu unwaith yn enwog ac adnabyddus i gylch eang yn yr alwedigaeth fel gwarthegydd, ac nid y lleiaf ohonynt oedd Evan Jonathan. Ac wrth gofio am dano, cofiwn am y gwaith a'r daioni a wnaeth yn ei ddydd a'i dymor. Erbyn heddiw y mae'r teulu lluosog ac adnabyddus yma, gydag eithrio John Jonathan wedi mynd i dy eu hir gartref. Y Llun canlynol claddwyd ei weddillion ym mynwent Tynygwndwn. Gwasanaethwyd yn yr angladd gan y Parch. D. Conwil Evans, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. W. Phillips, gweinidog y lle. Cydymdeimlir yn fawr ar weddw yn ei thrallod, wedi colli cymar bywyd ac a'r teulu yn eu galar.

Tachwedd 4, ac ar ol cystudd byr, ond caled iawn, Rachel Harries, Brynog Lodge, Felinfach, yn 60 oed. Teulu o ardal Llanwnen—"Pentrerhyd" oedd yr Harrieses ar y cychwyn, ac yn y flwyddyn '68 gorfu iddynt symud i ardal y Ciliau, ac yn yr ardal yma y treuliodd Rachel Harries ei hoes. Benyw hawddgar a llawen oedd a pharod ar air a gweithred i sirioli bywyd, ac oherwydd hyn yr oedd cylch ei hadnabyddiaeth yn hynod eang, a chyda gwir deimlad o brudd-der y taenodd y newydd trist o'i marw. Yr oedd iddi fel cymeriad nodweddion arbennig. Yr oedd yn neilltuol am ei siriolded, hawddgarwch a llawenydd ei bywyd. "Calon lawen a siriola fywyd." Credwn na fydd neb a'i hadwaenodd yn medru cofio am Rachel Harries ond fel cymeriad a bywyd fel hyn, cymeriad yn parhau i loywi a sirioli bywyd,—coffadwriaeth hapus iawn a dedwydd—i un o feddwl unplyg, ysbryd siriol a chalon hawddgar. Yn ei bywyd syml a rhinweddol ni roddodd le i gaddug meddyliol nac ysbrydol,a phob amser ei hawyrgylch yn glir a gloyw, a'i chymdeithas yn rhyw transparency ysbrydol. Yr oedd hefyd yn nodedig am ei ffyddlondeb i bob symudiad da mewn ardal ac eglwys, i'r capel a'r achos a garai yn ffyddlon, yn yr Ysgol Sul a'r Ysgol Gan tra gallau oedd yno; achos da yn y gymydogaeth gai bob cefnogaeth ganddi. Yn sicr, hyn a allodd hon hi a'i gwnaeth. Colled Capel, cymdeithas ac ardal i'w colli cymeriadau fel hyn, a gwelir ei heisiau am amser hir. Claddwyd ei gweddillion y Mercher canlynol yng Nghladdfa Capelygroes, pryd y gwasanaethwyd yn y ty gan ei gweinidog, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. W. Phillips, Tynygwndwn. Pregethwyd yn y Capel a gorffenwyd y gwasanaeth ar lan y bedd gan y Parch. David Evans, Cribyn. Gadawodd frawd a chwiorydd a llu o berthynasau mewn galar a hiraeth o golli chwaer mor dda. Cydymdeimlwn yn fawr a'r brawd, ac hefyd a'r chwiorydd a fu yn gweini yn dyner arni, ac yn ofalus iawn ohoni yn ei byr gystudd. "Ei hun mor ddedwydd yw."

(Oherwydd diffyg gofod, bu raid cadw rhai Marwgofion hyd y rhifyn nesaf.)

Nodion yr Eglwysi.

CYFARFODYDD DIOLCHGARWCH AM Y CYNHAEAF.—

Caeronnen: Prynhawn a hwyr—Y Parch. T. O. Williams, M.A.

Brondeifi: Dr. W. M. Griffiths a'r Parch. T. O. Williams, M.A.

Ciliau: Y Parch. E. O. Jenkins.

Rhydygwin: Y Parch. D. Evans a Parch. W. M. Phillips.

Capelybryn: Y Parch. D. Rhyddderch, B.A.

Capelycwm: Y Parch. T. O. Williams, M.A.

Alltyplaca: Y Parch. D. Conwil Evans.

Capelygroes: Y Parch. T. O. Williams, M.A.

Cribyn: Y Parch. T. O. Williams, M.A.

Llwynrhydowen: Y Parch. T. O. Williams, M.A.

Bwlchyfadfa: Y Parch. T. O. Williams, M.A.

Pantdefaid a Graig, Llandysul: Y Parch. J. Park Davies, M.A., B.D.; Parch. D. Rhyddderch, B.A.; a'r Parch. T. Arthur Thomas.

Aberdar: Y Parch. T. O. Williams.

BWLCHYFADFA. — I wneud i fyny ein cyfran tuag at symud ymaith ddyled y Gymdeithas trefnodd boneddigesau y lle hwn "Social Evening," Mawrth, Tachwedd 15. Yr oedd yn noson bur arw—disgynai'r glaw bron yn ddibaid, er hynny daeth llu mawr ynghyd yn enwedig o bobl ieuainc a chafwyd noson hwylus i'r eithaf. Yr oedd y ddarpariaeth ar gyfer y Te yn rhagorol a dangosai'r boneddigesau serchogrwydd mawr. Yn wir yr oedd pob un ar ei orau a'r canlyniad oedd i ni gael un o'r nosweithiau mwyaf dymunol a gawsom erioed a da genym allu dweyd fod yr elw'n ddigon i gyfarfod ein cyfran.

Crown 8vo. Cloth 2/- net, Stiff Covers, 1/6 net.

THE AUTHOR OF

NEARER, MY GOD, TO THEE

(SARAH FLOWER ADAMS)

By H. W. STEPHENSON, M.A.

The illustrations include a reproduction in facsimile of the original M.S. of the hymn, "Nearer, my God, to Thee."

This Hymn, which first appeared in the Hymn Book of the South Place Unitarian Chapel, Finsbury, E.C., is more widely known than any other by a Unitarian writer. It is the expression of a faith that had endured many doubts and, at one time, seemed as though it would pass utterly away. This Memoir brings together all that is known of the life story of Mrs. Adams. Ministers and Teachers in Sunday Schools will do well to add it to the books already on their shelves; they will find it not only readable but useful as well.

Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, W.C. 2

YOUR CHILDREN'S EYESIGHT IS THEIR MOST VALUABLE POSSESSION.

If you have the slightest suspicion that your child is suffering in any degree from eye-strain, which may be indicated by headaches after a day at school, or by the child poring over a book with its head very close to the page, you should consult a qualified optician who will gladly offer you a candid opinion, and will most certainly not prescribe glasses unless absolutely necessary, after the most careful tests.

CECIL JONES, F.S.M.C., F.B.O.A., F.I.O. (London).

Is fully qualified to offer every service for the eyes at his sight-testing rooms, both at

26, **Great Darkgate Street, Aberystwyth** (Telephone 209)

And at JONES, JEWELLER, LLANDYSSUL.

IT WILL PAY YOU TO SEE OUR HUGE SELECTION OF WINTER GOODS BEFORE YOU BUY. . . .

E. LLOYD JONES

Bradford House, Llandyssul.



A Complete Banking Service

The Midland Bank offers exceptional facilities for the transaction of banking business of every description through over 1960 branches covering all important agricultural, commercial, industrial and residential districts in England and Wales.

Deposit accounts may be opened in amounts of £1 and upwards, and interest is allowed at current rates.

The Branch at 9 Lincoln Street, Llandyssul, is open every week-day, from 10 a.m. to 12 noon on Saturday and from 10 a.m. to 3 p.m. on other days.

MIDLAND BANK

LIMITED

HEAD OFFICE: 5 THREADNEEDLE ST., LONDON, E.C. 2

Affiliations: Belfast Banking Co. Ltd., Northern Ireland; The Clydesdale Bank Ltd., and North of Scotland Bank Ltd., Scotland; Midland Bank Executor and Trustee Co. Ltd.